



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813


Beth sydd ar y gweill? *What's on?*

Rhifyn Mehefin 2020

Sicrhau eich bod yn cadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod digynsail hwn

June 2020 Edition

Making sure you stay connected during these unprecedented times



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
cyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio
www.gov.wales/farmingconnect



GWEMINARAU WYTHNOSOL / WEEKLY WEBINARS

Ymunwch â ni ynghyd â llu o arbenigwyr o'r diwydiant yn un o'n gweminarau poblogaidd. Er mwyn ymuno â gweminar, e-bostiwch delyth.evans@menterabusnes.co.uk neu ewch i'r dudalen ddigwyddiadau ar ein gwefan. Mae pob gweminar yn defnyddio Zoom a bydd cyfarwyddiadau llawn ynglŷn â sut i ymuno'n cael eu rhannu gyda chi cyn y digwyddiad.

Join us and a host of industry experts for one of our popular webinars. To join a webinar, please e-mail delyth.evans@menterabusnes.co.uk or visit the events page on our website. All webinars use the Zoom platform and full joining instructions will be shared with you prior to the event.



Pryd/When	Pwnc/Topic	Siaradwr/Speaker
22/06/20 20:00	Gadael yr UE a'r goblygiadau <i>EU-Exit and its implications</i>	Nerys Llywelyn Jones, Agri Advisor
23/06/20 20:00	Cynllunio Rheoli Maetholion mewn Garddwriaeth <i>Nutrient Management Planning in Horticulture</i>	Will John, ADAS
23/06/20 15:30	Creu Gwefan <i>Creating a Website</i>	Eddy Webb, Insynch
24/06/20 12:30	Effeithlonrwydd godro: mwy o laeth, llai o amser <i>Milking efficiency: more milk, less time</i>	Tom Greenham, Advance Milking
25/06/20 20:15	Llwyn Goronwy: Gwerthuso manteision cofnodi llaeth yn y fuches sy'n lloia yn y gwanwyn <i>Llwyn Goronwy: Evaluating the benefits of milk recording in the spring herd</i>	Shion Chub LLC, & Richard Francis
25/06/20 18:30	Grass SAT: Gwneud y mwyaf o'ch adnodd pwysicaf <i>Grass SAT: Optimising your most important asset</i>	Philip Briscoe, Rezatec
29/06/20 19:00	Synwryddion Lloia a Thechnoleg i ganfod pan fo buwch yn gofyn tarw <i>Calving Sensors and Heat Detection Technology</i>	Stephen Fagan, Moocall
30/06/20 20:00	Y Ffermwr Gwydn <i>The Resilient Farmer</i>	Doug Avery, cyfarwyddwr/ director - Bonavaree Farm
01/07/20 15:30	Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol <i>Social Media Training</i>	Eddy Webb, Insynch
02/07/20 12:30	Godro pob tamaid: canlyniad prosiect Cyswllt Ffermio yn ymwneud â gwella ansawdd llaeth <i>Milking for all it's worth: results from a Farming Connect project on improving milk quality</i>	Tom Greenham, Advance Milking
02/07/20 20:15	Perfformiad y fenter biff: dull system gyfan yn safle arddangos Bryn <i>Beef enterprise performance: a whole system approach at Bryn demonstration site</i>	Liz Genever, Arbenigwr annibynnol biff a defaid/Independent beef and sheep specialist
07/07/20 20:00	Manteision plannu coed i'r busnes fferm <i>The benefits of tree planting to the farm business</i>	Geraint Jones Cyswllt Ffermio/ Farming Connect
09/07/20 12:30	Sicrhau'r llif llaeth gorau posibl: chwalu'r chwedlau ynglŷn â'r broses odro <i>Maximising milk flow: myth-busting the milking process</i>	Tom Greenham, Advance Milking
09/07/20 20:15	Agweddau economaidd ac ymarferol o fagu heffrod llaeth Holstein/Friesian ar fferm ddefaid ar yr ucheldir <i>Economics and practicalities of rearing Holstein/Friesian dairy heifers on an upland sheep farm</i>	Dafydd Jones, Llys Dinmael Andy Dodd, Swyddog Technegol Llaeth AHDB Dairy Technical Officer
16/07/20 20:15	Ychwanegu gwerth i goed fferm <i>Adding value to farm woodland</i>	Gareth Davies, Coed Cymru

Ymgeisiwch nawr ar gyfer cyllid sgiliau Cyswllt Ffermio i...

...ddatblygu eich sgiliau, datblygu eich busnes
...cynllunio ar gyfer y dyfodol

Farming Connect skills funding Apply now to...

...develop your skills, develop your business
...plan ahead now

Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid sgiliau ar agor hyd 17:00 - 26 Mehefin 2020
The skills funding application window is currently open until 17:00 - 26 June 2020

- Mae cymhorthdal o hyd at **80%** ar gael ar gyfer cyrsiau hyfforddiant i fusnesau ac unigolion sydd wedi cofrestru
 - Mae mwy na **80 o gyrsiau** ar gael, dan gategoriâu Busnes, Tir a Da Byw
 - Rhwydwaith o **ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy**, wedi'u lleoli ledled Cymru

Er gwaethaf yr ansicrwydd yn ymwneud â chyfyngiadau yn sgil coronafeirws, ymgeisiwch am hyfforddiant **nawr** er mwyn paratoi erbyn yr amser pan fydd opsiynau digidol/ar-lein newydd ar gael neu pan fydd dulliau cyflwyno arferol yn ail-ddechrau.

- All training courses subsidised by up to **80%** for registered businesses and individuals
- More than **80 courses** available, categorised under Business, Land and Livestock
- Network of **approved training providers**, located throughout Wales

Despite the current uncertainty surrounding coronavirus restrictions, apply for training **now** in readiness for new digital/online options becoming available or normal delivery methods being resumed.

Am gymorth i gwblhau eich Cynllun Datblygu Personol, cyswlltwch â'ch swyddog datblygu lleol mor fuan a phosib yn y cyfnod ymgeisio, neu mae canllaw cam wrth gam i'ch cynorthwyo ar ein gwefan.

For support to complete your Personal Development Plan, please contact your local development officer as early as possible in the application window, or please visit the step by step video on our website.



llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant - gov.wales/farmingconnectskillsandtraining

A oes gennych chi gyfrifiadur a mynediad i'r rhyngwyd yn eich cartref?

A fyddai gennych chi neu aelod o'r teulu ddiddordeb dysgu am agweddau sylfaenol defnyddio Word, Excel, e-bost, y cyfryngau cymdeithasol a gwefan Llywodraeth Cymru?

Er nad yw'r gwasanaethau wyneb i wyneb yn digwydd am y tro, mae Cyswllt Ffermio yn dal i fod ar gael i'ch helpu i gadw mewn cysylltiad.

Mae'r cwrs Cyfrifiaduron i Ddechreuwyd wedi cael ei addasu i fod yn gwrs y gellir ei astudio gartref, ac mae'n cael ei ariannu'n llawn. Dysgwch o'ch cartref, ar eich cyflymder eich hun, dros gyfnod o hyd at chwe wythnos.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813** neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio.

llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant

Do you have a computer and internet access at home?

Would you or a family member like to learn about the basics of Word, Excel, emails, social media and Welsh Government website?

Although face-to-face services have been postponed, Farming Connect are still here to help you stay connected.

Computers for Beginners has been transformed into a 100% funded home course. Learn at home, at your own pace, over a maximum period of six weeks.

For more information, contact Farming Connect on **08456 000 813** or visit the Farming Connect website.

gov.wales/farmingconnectskillsandtraining





PODLEDIAD CLUST I'R DDAEAR

Cafodd y podlediad ei lansio ym mis Medi 2019, a dyma'r tro cyntaf i bodlediad ffermio o'r fath fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ei nod yw rhannu cyngor, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth gyda'r gymuned amaethyddol yng Nghymru.

EAR TO THE GROUND PODCAST

Launched in September 2019, this is the first farming podcast of its kind to be available in both Welsh and English. Aimed at sharing advice, support and inspiration to the farming community of Wales.

Mae pob rhifyn yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda ffermwyr ac arbenigwyr o'r diwydiant.

Podlediad diweddar:

Rhifyn 18 - Rhys Williams - Clust i Ddaear 'Seland Newydd'

Rhifyn 19 - Manteision ac anfanteision system silwair aml-doriad

All episodes are based on interviews with farmers and industry experts.

Latest podcast:

Episode 18 - Rhys Williams - Ear to the 'New Zealand' Ground

Episode 19 - The pros and cons of a multi cut silage system

Gwrandewch ar / Listen on...



Gwefan Cyswllt Ffermio / Farming Connect Website



Apple Podcasts



Spotify



Ydych chi wedi ystyried ymuno â grŵp Agrisgôp?
Have you considered joining an Agrisgôp group?

A oes gennych syniad yr hoffech ei ddatblygu ymhellach neu broblem gyda'ch busnes fferm yr hoffech ei datrys?

Drwy ddod yn aelod o grŵp Agrisgôp, gallwch ymuno â chriw cyfeillgar o bobl sydd â'r un diddordebau er mwyn trafod a rhannu syniadau.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd ar lein yn ystod y cyfnod yma.

Do you have an idea that you would like to progress further, or a problem within your farm business that you are keen to address?

By becoming a member of an Agrisgôp group, you can join a friendly group of people with a similar mindset to discuss and share ideas.

Meetings will be held online during this time.

Cysylltwch â / Contact: Sioned Llywelyn
sioned.llywelyn@menterabusnes.co.uk - 01970 631 421



Cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru

Co-design for a Sustainable Farming Scheme for Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyma eich cyfle i ddweud eu dweud am yr hyn a fydd yn cymryd lle'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol a Glastir.

This is the last chance to have your say in what will replace the BPS and schemes such as Glastir.

Mae angen cwblhau yr **AROLWNG** byr ar lein a datglan eich diddordeb mewn seswn **UN I UN** a/neu **WEITHDY** grŵp erbyn y **30/06/20**

You will need to complete a short **ONLINE SURVEY** and indicate your interest in attending a **ONE TO ONE** session and/or group **WORKSHOP** by the **30/06/20**

Bydd yr holl wybodaeth ar sut i gymryd rhan ar menterabusnes.cymru/sfs
All information on how to get involved can be found on menterabusnes.cymru/sfs



E-DDYSGU / E-LEARNING

Er mwyn gwella perfformiad eich da byw a lleihau costau cynhyrchiant, cwblhewch un neu fwy o'r cyrsiau e-ddysgu canlynol o gysur eich cartref eich hun, ar adeg sy'n gyfleus i chi:

- Gwella Iechyd y Pridd
- Rhywogaethau Glaswellt
- Rheoli'r Borfa
- Systemau Pori

llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant

To improve on livestock performance and lower cost of production, complete one or more of the following e-learning courses from the comfort of your own home, at a time convenient to you:

- Improving Soil Health
- Grassland Species
- Grazing Management
- Grazing Systems

gov.wales/farmingconnectskillsandtraining

Awr am ddim gyda ymgynghorydd arbenigol / Fully funded hour with a specialist advisor

Oherwydd sefyllfa bresennol Covid-19, rydym yn cynnig lluo o gymorthfeydd ychwanegol **un-i-un** un ai dros y ffôn neu yn ddigidol gyda ymgynghorwyr profiadol. Bydd y cyngor yn benodol i'ch busnes chi ac yn gyfrinachol. Anelir i drefnu rhain o fewn ychydig oriau o'ch ymholiad cyntaf. Mae'r pynciau yn cynnwys:

*In light of the Covid-19 outbreak we can offer extra **one-to-one** surgeries either digitally or over the phone with one of our expert consultants. All advice is specific to your business and confidential. We aim to arrange this within a few hours of your initial enquiry. Topics include:*

Cyngor / Advice	Beth allwn ni ddarparu? / What can be covered?
Cyfreithiol / Legal	Cyfraith amaeth; Cyfraith amgylcheddol; Trwyddedau pori; Tenantiaethau; Prynu a gwerthiant; Anghydfodau; Cytundebau partneriaeth; Mentrau ar y cyd; Ewyllysiau, Profiant a chynllunio ystâd; Cyfraith cyflogaeth; Grantiau Llywodraeth - gan gynnwys COVID-19 <i>Agri law; Environmental law; Grazing licenses; Tenancies; Buying and sales; Disputes; Partnership agreements; Joint ventures; Wills, Probate and estate planning; Employment law; Government grants - including COVID-19</i>
Cyfrifydd / Accountant	Cyfrifon - ble i wella; Strwythur busnes; Cynlluniau/prosiectau yn y dyfodol - llif arian, treth (pob math) <i>Accounts - where to improve; Business structure; Future plans/projects - cash flow, tax (all types)</i>
Busnes / Business	Adolygu cynllun busnes (mynediad i gyngor technegol); Gwerthuso perfformiad busnes; Adolygu costau gorbenion; Data meincnodi 'Mesur i Reoli'; Menter ar y cyd <i>Business plan review (access to technical advice); Evaluating business performance; Review overhead costs; M2M benchmarking data; Joint enterprise</i>
Maeth Biff a Defaid / Beef and Sheep Nutrition	Trafod canlyniadau samplau silwair; Anghenion maeth i sicrhau'r perfformiad gorau posibl; Cydbwysu dognau gyda samplau porthiant ac ansawdd porfa; Ansawdd porthiant a faint a roddir; Porthiant amgen ar gyfer pesgi <i>Silage sample results; Nutritional needs to maximise performance; Balancing rations with forage samples and grass quality; Feeding quantities and quality; Alternative feeds for fattening</i>
Tir Glas - Rheoli'r borfa / Grassland - Grass Management	Cyngor cychwynol ar gynllunio a sefydlu system bori; Rheoli cyflenwad ac ansawdd porfa; Cynhyrchu cynlluniau pori; Rheoli perfformiad da byw sy'n pori; Cynhyrchu cyllidebau porthiant <i>Initial advice on designing and setting up a grazing system; Managing grassland and supply quality; Produce grazing plans; Managing the performance of grazing livestock; Producing feed budgets</i>
Tir Glas - Dadansoddi Pridd / Grassland - Soil Analysis	Dadansoddi pridd, Mynegeion pH, P a K; Cyngor ynglŷn â chywasgiad; Elfennau hybrin; Cyfraddau gwrtaith a'r defnydd o dail buarth, slyri a gwrteithiau organig eraill <i>Soil analysis, pH, P and K indices; Compaction, Trace elements; Fertilizer rates and use of FYM, slurry and other organic fertiliser</i>
Coetir / Woodland	Cynllun Creu Coetir; Cynllun Adfer Coetir; Cwmpo a marchnata coetir; Prosesu a rheoli coetir <i>Woodland Creation Scheme; Woodland restoration; Felling and marketing woodland; Processing and woodland management</i>
Marchnata ac Arallgyfeirio / Marketing and Diversification	Dechrau prosiect arallgyfeirio; Adnabod a chyrraedd eich cwsmeriaid a'ch cynulleidfa darged; Marchnata; Cyngor gyda brandio a chyfryngau cymdeithasol <i>Start a diversification project; Identifying and reaching your target audience and customers; Marketing; Branding advice and social media marketing</i>
Rheoli Staff / Staff Management	Cynllun cadw swyddi Covid-19 (Furlough); Diswyddo; Newid telerau ac amodau cyflogaeth e.e. lleihau oriau; Tips iechyd, lles a diogelwch gweithio adref; Rheoli perfformiad i gadw cymhelliant ac ymgysylltiad staff yn ystod yr argyfwng <i>Covid-19 job retention scheme (Furlough); Redundancy; Changing employment terms and conditions e.g. reducing hours; Homeworking health, wellbeing and safety tips; Performance management to maintain staff motivation and engagement during the crisis</i>
Cynllunio / Planning	Adeiladau newydd; Adnewyddu hen adeiladau; Systemau egni adnewyddadwy; Cyfleon twristiaeth <i>New builds; Renovations and conversions; Renewable energy; Tourism opportunities</i>
Isadeiledd / Infrastructure	Adeiladau fferm - dyluniad a gosodiad, rheolau a rheoliadau, ymholiadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio; Cyngor ar atal llygredd; Rheoliadau llygredd amaethyddol / ymholiadau NVZ - cyfrifiadau storio, llwytho maetholion; Cofnodion NVZ; Rheoliadau fferm - SSAFO / Rheoliadau adnoddau dŵr (rheoli llygredd amaethyddol) (Cymru) 2020 drafft <i>Farm buildings - design and layout, rules and regulations, planning application queries; Pollution prevention advice; Agri pollution regulations / NVZ queries - storage calculations, nutrient loadings; NVZ records, Farm regulations - SSAFO / Draft Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2020</i>
Iechyd Anifeiliaid / Animal Health	Unrhyw broblem iechyd anifeiliaid o fewn eich buches/diadell e.e. phroffion cyfrif wyau ysgarthol, clefydau heintus, cloffni, colli wŷn neu loi, mastitis, genomeg, ffrwythlondeb <i>Any animal health issues within your herd/flock e.g. FEC, infections diseases, lameness, lambing/calving losses, mastitis, genomics, fertility</i>

Gwasanaeth Paru Sgiliau Skills Matching Service

Yn ystod y pandemig COVID-19, mae'n hanfodol ein bod ni'n sicrhau bod ein busnesau gwledig a seiliedig ar y tir allweddol – gan gynnwys ffermydd a busnesau sydd â chyfrifoldebau lles anifeiliaid – yn gallu cael mynediad at weithwyr allweddol ac yn parhau i weithredu.

Er mwyn bodloni'r angen hwn, rydym yn creu Gwasanaeth Paru Sgiliau a fydd yn rhoi busnesau a gweithwyr posibl, sydd â'r sgiliau a'r profiad perthnasol, mewn cysylltiad â'i gilydd.

Byddwn yn hidlo'r ymgeiswyr gan gymharu eu sgiliau allweddol gyda'r rhai sydd eu hangen ar y busnesau, a bydd hyn yn ei gwneud yn haws i gyflogwyr a gweithwyr ganfod ei gilydd.

I ymuno â'n gwasanaeth paru sgiliau cwblhewch ffurflen ar wefan Lantra Cymru, neu, os byddai'n well gennych gwblhau'r ffurflenni dros y ffôn, gallwch gael cymorth drwy Ganolfan Wasanaeth Cyswilt Ffermio ar **08456 000 813**

During the COVID-19 pandemic it is vital that we ensure key rural and land-based businesses - including farms and businesses with animal welfare obligations - are able to access key workers and can continue operating.

To meet this need, we are creating a skills matching service which will put businesses and potential employees with relevant skills and experience in touch with each other.

We will filter applicants by matching up their key skills with those required by the businesses, which will make it easier for both employers and employees to find each other.

To join our skills matching service please complete the form on the Lantra Wales website. If you would prefer to complete the forms over the telephone, it is possible to get assistance through the Farming Connect Service Centre. **Please call 08456 000 813**



www.wales.lantra.co.uk

Recriwtio Grŵpiau Trafod Defaid Cyswllt Ffermio - AR AGOR NAWR

A fyddai gennych chi ddiddordeb ymuno ag un o ddeg o grwpiau trafod NEWYDD ar hyd a lled Cymru? Nod y grwpiau fydd dylanwadu ar berfformiad y ddiadell er mwyn sicrhau'r elw mwyaf posibl drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol y busnes.

Bydd y grwpiau trafod yn cael eu cynnal dros gyfnod o 18 mis. Bydd y rhaglen yn cael ei rhannu'n wyth cyfarfod rhyngweithiol dros hanner diwrnod (4 awr), a gynhelir naill ai ar y fferm neu mewn ystafell gyfarfod. Bydd pob cyfarfod yn cael ei hwyluso gan un ymgynghorydd defaid er mwyn sicrhau mwy o gysondeb, a bydd pob cyfarfod yn cynnwys amrywiaeth o arddangosiadau ymarferol, casglu data a phrofion (*yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol*).

Y prif fanteision o fod yn rhan o Grŵp Trafod Defaid Cyswllt Ffermio

- Gwella effeithlonrwydd y busnes drwy roi sylw i fanylion ac elw
- Cyfres o gyfarfodydd strwythuredig
- Wedi'i hwyluso gan arbenigwr defaid
- Rhannu syniadau gydag unigolion eraill o'r un anian
- Gwella'r dysgu
- Casglu data / meincnodi

Os hoffech fynegi diddordeb mewn ymuno ag un o'r grwpiau trafod, ewch i'r adran 'Cynllunio Busnes' ar ein gwefan a/neu cysylltwch gyda'ch Swyddog Datblygu lleol.



Farming Connect Sheep Discussion Group Recruitment - OPEN NOW

Would you be interested in joining one of ten NEW sheep discussion groups across Wales?

The aim of the groups will be to influence flock performance to maximise profitability by focusing on the key areas of the business.

The discussion groups will take place over an 18-month period and the programme will be split into eight interactive half day (4hr) meetings, delivered either on-farm or in a meeting room setting. Each discussion group will be facilitated by one sheep consultant to allow for a greater consistency of delivery and will include a variety of practical demonstrations, data collection and testing (*pending social distancing guidelines*).

Key benefits of being part of a Farming Connect Sheep Discussion Group

- Improve business efficiency by attention to detail and marginal gains
- Structured programme of meetings
- Facilitated by sheep specialist
- Sharing ideas with like-minded individuals
- Improved learning
- Data collection to create key business baselines/Benchmarking

If you would like to express your interest in joining one of the discussion groups, please visit the 'Business Planning' section on our website and/or contact your local Development Officer.